TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# NPTC PA1 Sylfaenol mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel Lefel 2



**Yn gryno**

Mae'r cwrs hwn yn ymdrin â gwybodaeth amrywiol a thrylwyr ynglyn â defnyddio plaladdwyr a chael gwared arnynt.

Mae'n uned sylfaenol orfodol sy'n ymdrin â'r ddeddfwriaeth ynghylch defnyddio plaladdwyr, ac mae'n rhaid ei chwblhau cyn cychwyn unrhyw gwrs plaladdwyr NPTC arall.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...Unrhyw un sydd â swydd sy'n cynnwys defnyddio plaladdwyr

...Unrhyw un sydd eisiau datblygu eu sgiliau

...Unrhyw un sydd eisiau datblygu eu gwybodaeth

**Cynnwys y cwrs**

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae deddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw un sy'n defnyddio plaladdwyr mewn cyflogaeth neu fusnes fod wedi cael cyfarwyddyd digonol a bod yn gymwys yn y dyletswyddau yr ymgymerir â nhw. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i ddefnyddio a thrin plaladdwyr yn ddiogel a'r dull(iau) taenu a ddefnyddir. Bydd angen i bob unigolyn ymgymryd â modiwl sylfaen (PA1) a modiwl cymwysiadau perthnasol.

Byddwn yn mynd i'r afael â:

Deddfwriaeth
Dehongli gwybodaeth ar label cynnyrch
Diogelwch personol a halogiad
Storio plaladdwyr a'u cynhwysyddion
Gwaredu arnynt
Cadw cofnodion
Ffactorau amgylcheddol

**Gofynion Mynediad**

Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol arnoch, ond rhaid i chi fod yn 19 oed neu'n hyn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Byddwch yn ymgymryd â phrawf ar-lein sy'n cymryd oddeutu 1 awr.

Dylech gwblhau'r cwrs hwn mewn cysylltiad â naill ai PA6 a PA2, neu'r ddau.

Mae'r cwrs yn 1 diwrnod o hyd gydag asesiad ar-lein ar ddiwedd y dydd.